Cael anhawster yn darllen y cylchlythyr hwn? Darllen y neges yn eich porwr gwe.

electoral administration

# bulletin




Rhifyn 373 (Cymru) – 12 Mehefin 2024

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: ID Pleidleisiwr a chasglu data gweinyddol

Bydd y Comisiwn yn gofyn am ddata gweinyddol allweddol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ar ôl etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig. Mae'r data hwn yn darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi ein gwaith yn adrodd ar etholiadau ledled gwledydd Prydain.

Byddwn ni'n casglu data mewn dwy don drwy ein porth data:

- Data'n ymwneud ag ID pleidleiswyr (dyddiad cau cyflwyno: dydd Gwener 26 Gorffennaf)
- Data gweinyddol craidd (dyddiad cau cyflwyno: dydd Gwener 16 Awst)

Byddwn ni'n darparu manyleb ddata lawn yn fuan, ond rydyn ni wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth isod am y data y byddwn ni'n gofyn amdano.

O ddydd Gwener 5 Gorffennaf ymlaen, bydd modd i chi fewngofnodi i'r porth data i lenwi'r data ar ID pleidleiswyr a'r data etholiadol gweinyddol craidd.
Byddwch yn cael e-bost i'ch cyfeiriad e-bost gwasanaethau etholiadol a fydd yn nodi sut i fewngofnodi/ailosod eich cyfrinair ar y diwrnod wedi'r etholiad.

### ID Pleidleisiwr

Cesglir y data hwn ym mhob gorsaf bleidleisio a chaiff ei gasglu gan ddefnyddio'r ffurflen gwerthuso ID Pleidleisiwr (VIDEF). Mae'r data y gofynnir amdano ar lefel etholaeth. Mae data VIDEF wedi'i rannu ar sail a oedd gan yr orsaf 'gyfarchwr' ai peidio.

Yn ogystal â'r meysydd VIDEF rydyn ni hefyd yn gofyn am y canlynol:

- nifer y pleidleiswyr a fwriodd eu pleidlais drwy ddod i'r orsaf
- cyfanswm y gorsafoedd pleidleisio oedd â chyfarchwr neu oedd heb gyfarchwr.

The Electoral Commission

## Cynnwys

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: ID Pleidleisiwr a chasglu data gweinyddol**

Trosolwg o'r data sydd ei angen i gefnogi ein gwaith adrodd ar yr Etholiad ar ôl y diwrnod pleidleisio.

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Casglu adborth**

Sut rydyn ni'n bwriadu casglu adborth am brofiadau gweinyddwyr etholiadol, staff gorsafoedd pleidleisio, ac ymgeiswyr.

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Diweddaru Canllawiau**

Diweddariadau am wneud penderfyniadau ar geisiadau pleidlais bost ac argaeledd canllawiau cyflym a llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio digidol.

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Adnoddau newydd i gefnogi pleidleiswyr gyda chofrestru ac ID pleidleisiwr**

Llyfrynnau, posteri, graffigau a mwy.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maen

Cofiwch y dylai ffigurau VIDEF gynnwys data a gofnodwyd wrth y ddesg cyflwyno papurau pleidleisio yn unig, ac nid data a gesglir gan y cyfarchwr wrth fynedfa'r orsaf bleidleisio.

## Data etholiadol gweinyddol craidd

Mae'r rhan fwyaf o'r data rydyn ni'n ei gasglu yn gyson â'r cais rydyn ni fel arfer yn ei wneud ar gyfer etholiadau a drefnwyd (nifer y pleidleisiau a fwriwyd, a wrthodwyd, pleidleisiau post a gyflwynwyd ac ati). Ar gyfer etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig, byddwn ni hefyd yn gofyn am ddata ar y canlynol:

- Ceisiadau ar-lein am bleidlais drwy'r post a'r rhai a ychwanegwyd i'r gofrestr
- Pleidleisiau drwy'r post a gyflwynwyd mewn gorsafoedd pleidleisio, a'r rhai a wrthodwyd oherwydd y rheolau newydd
- Yr etholwyr tramor y rhoddwyd pleidlais drwy'r post iddynt a nifer y pleidleisiau post hynny a ddychwelwyd
- Manylion ynghylch offer hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio

Bydd rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Canllaw defnyddiwr porth data
- Manyleb ddata lawn yr Etholiad Cyffredinol
- Taenlen gasglu ar gyfer data i'w gyhoeddi

### Cymorth casglu data

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwaith casglu data, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: casglu adborth

Rydyn ni'n awyddus i glywed gan bobl sy'n rhan o wahanol agweddau ar yr etholiad er mwyn cefnogi ein gwaith adrodd ar yr etholiad. Mae hyn yn cynnwys timau gweinyddol etholiadol, staff gorsafoedd pleidleisio ac ymgeiswyr.

### Adborth gan weinyddwyr etholiadol

Fel bob amser, mae angen i ni gasglu adborth gan weinyddwyr a Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am redeg yr etholiadau. Mae hyn nid yn unig yn llywio ein gwaith adrodd wedi'r etholiad, ond bydd hefyd yn ein helpu i wella sut rydyn ni'n eich cefnogi chi i gyflawni etholiadau'n llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae'r arolwg ar gael yma a bydd yn fyw ddydd Gwener 5 Gorffennaf ymlaen.  Y dyddiad cau ar gyfer ei gwblhau fydd 12 Awst 2024. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg adborth, cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

### Arolwg staff gorsafoedd pleidleisio

Yn debyg i'r hyn a wnaed mewn etholiadau eraill yn ddiweddar, rydyn ni'n cynnal arolwg ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio er mwyn casglu adborth am eu profiadau ar ddiwrnod yr etholiad.

**nhw'n un o'n prif sianeli cyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Cofiwch roi gwybod i ni am newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu ni i gadw ein rhestrau post yn gyfredol.**

**Os oes penodiad newydd ar gyfer Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy anfon e-bost at infowales@electoralcommission.org.uk**

**Rydyn ni'n anfon y cylchlythyr hwn atoch chi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn ffurfio rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol, sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn ni'n rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y Deyrnas Unedig fel a amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych chi'n dymuno derbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio ar unrhyw adeg.**

Cawson ni ymateb anhygoel i'n harolwg ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2024, gyda thros 21,000 o ymatebion – diolch i'r timau gweinyddu etholiadol am hynny, a fu'n tynnu sylw at yr arolwg ac yn ei rannu gyda staff eu gorsafoedd pleidleisio.

Bydd dwy ffordd i staff gael mynediad at yr arolwg:

- Mae llawlyfr yr orsaf bleidleisio (copi caled a digidol) yn cynnwys cod QR, a gall y staff ddefnyddio ffôn clyfar i'w sganio a mynd at yr arolwg.

- Dolen at yr arolwg ar-lein y gallwch ei gylchredeg i staff eich gorsaf bleidleisio.

Yn y ddau achos, bydd y ddolen i'r arolwg yn mynd yn fyw ar brynhawn y diwrnod pleidleisio. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

**Arolwg Ymgeiswyr**

Byddwn ni'n cynnal arolwg gyda'r ymgeiswyr i ddeall eu profiadau nhw o sefyll yn yr etholiad. Mae'r arolwg hwn yn rhoi gwybodaeth hanfodol i ni am yr heriau maen nhw'n eu hwynebu, gan gynnwys eu profiadau o aflonyddu a cham-drin. Serch hynny, er y byddwn ni'n cysylltu gyda phob ymgeisydd y gallwn ddod o hyd i'w cyfeiriad e-bost, rydyn ni'n gwybod nad ydyn ni'n cyrraedd pawb.

Bydden ni'n ddiolchgar iawn am eich cymorth yn rhannu'r arolwg gydag ymgeiswyr yn eich ardal chi ar ôl yr etholiad. Bydd yr arolwg yn fyw o ddydd Gwener 5 Gorffennaf ymlaen, ac mae'r ddolen ar gael yma.

## Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig: diweddaru'r canllawiau.

**Llawlyfr gorsaf bleidleisio**

Mae'r llawlyfr gorsaf bleidleisio terfynol ar gyfer etholiad senedd y Deyrnas Unedig ar 4 Gorffennaf, yn ogystal â'r canllaw cyflym i staff gorsafoedd pleidleisio, bellach wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan, gan ddisodli'r fersiwn gyfeirio a gyhoeddwyd ym mis Mai. Rydyn ni'n disgwyl y bydd copïau caled yn cael eu hanfon at y rhai sydd wedi'u harchebu yn yr wythnos yn dechrau 17 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â thîm Comisiwn Etholiadol Cymru.

**Gwneud penderfyniadau ar geisiadau am bleidlais drwy'r post yn agos at etholiad**

Rydyn ni wedi diweddaru ein canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar wneud penderfyniadau ar geisiadau am bleidlais drwy'r post yn agos at etholiad. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar ar ystyriaethau wrth redeg Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, rydyn ni'n argymell na ddylai unrhyw derfyn amser rydych chi'n ei osod fod yn gynt na 5pm, chwe diwrnod gwaith cyn y bleidlais, er mwyn i chi allu cyflawni eich rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhestrau pleidleiswyr absennol ar gael i'w harchwilio cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

Mae'r canllawiau craidd wedi'u diweddaru ac yn cynnwys ystyriaethau pellach am y pwynt hwn.

Rydyn ni hefyd wedi diweddaru ein canllawiau ar gyfer amserlen pleidlais absennol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau sy'n gweinyddu etholiad Senedd y Deyrnas Unedig yng ngwledydd Prydain i gynnwys yr angen i gydweithio gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (os nad chi yw'r Swyddog hwnnw hefyd) wrth wneud y penderfyniadau hyn yn agos at etholiad.

## Adnoddau newydd i gefnogi pleidleiswyr gyda chofrestru ac ID pleidleisiwr

Yn ychwanegol i'r wybodaeth y sonion ni amdano ym Mwletin rhif 372, rydyn ni wedi creu adnoddau y gallwch eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad am ID pleidleisiwr, gan gynnwys:

- llyfryn pleidleiswyr
- canllaw i staff a gwirfoddolwyr
- posteri
- graffigau cyfryngau cymdeithasol
- adnoddau i'r wasg.

Mae'r adnoddau hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, sain, print bras, Hawdd ei Ddarllen ac Iaith Arwyddion Prydain, a hefyd mewn dros 20 o ieithoedd.

Lawrlwytho adnoddau cofrestru pleidleiswyr

Mae mwy o adnoddau'n cael eu hychwanegu o hyd, gan gynnwys adnoddau i gefnogi etholwyr dienw, felly cofiwch wirio'n rheolaidd.

**Cysylltwch â ni**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adnoddau hyn neu gymorth arall, cysylltwch â'r tîm Ymgysylltu â Phleidleiswyr drwy partners@electoralcommission.org.uk

Comisiwn Etholiadol Cymru
Llawr 3, Tŷ James William
9 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929

infowales@electoralcommission.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2024